Gwybodaeth i Gleifion

NHS

*Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol*

# Arweiniad ar ddefnyddio riluzole (Rilutek) ar gyfer Trin Clefyd Niwronau Motor - Gwybodaeth i Gleifion

*Ionawr 2001*

## Gwybodaeth bellach

Gellir cael gwybodaeth bellach am NICE a'r arweiniad llawn a ddosbarthwyd i'r NHS ar wefan NICE (**www.nice.org.uk)**. Gallwch wneud cais amdano hefyd drwy ffonio 0870 1555 455 a dyfynnu cyfeirnod 23071.


***National Institute for Clinical Excellence***

11 Strand
London
WC2N 5HR

Web: www.nice.org.uk

## Beth yw Arweiniad NICE?

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) yn rhan o'r NHS.  Mae'n cynhyrchu arweiniad ar gyfer yr NHS a chleifion ar feddyginiaethau, cyfarpar meddygol, profion diagnostig a gweithdrefnau clinigol a llawfeddygol a ble y dylent gael eu defnyddio.

Pan fydd y Sefydliad yn asesu'r pethau hyn, fe'i gelwir yn werthusiad.  Mae pob gwerthusiad yn cymryd tua 12 mis i'w gwblhau ac mae'n cynnwys gwneuthurwyr y cyffur neu'r ddyfais, y sefydliadau proffesiynol a'r grwpiau sy'n cynrychioli'r cleifion.

Gofynnwyd i NICE edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer defnyddio riluzole (Rilutek) a darparu arweiniad a fyddai'n helpu’r NHS yng Nghymru a Lloegr i benderfynu ble y dylid ei ddefnyddio wrth drin Clefyd Niwronau Motor.

## Beth yw Clefyd Niwronau Motor

Clefyd Niwronau Motor (MND) yw'r enw a roddir ar grŵp o glefydau sy'n effeithio ar y niwronau motor yn yr ymennydd a llinyn y cefn.  Niwronau motor yw'r celloedd nerfau y mae'r ymennydd yn anfon gwybodaeth

ar eu hyd, i'r cyhyrau, ar ffurf ysgogiadau trydanol.

Mae dirywiad yn y celloedd hyn yn arwain at wanhad a dirywiad yn y cyhyrau.  Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y symptomau'n dod i'r amlwg gyntaf yn y coesau a'r breichiau.  Efallai y bydd cyhyrau yn yr wyneb a'r gwddf yn dioddef gwendid a dirywiad mewn rhai pobl, gan greu problemau gyda'r lleferydd ac anhawster wrth gnoi a llyncu.

Nid yw MND yn effeithio ar gyffyrddiad, blas, golwg na chlyw, nac yn uniongyrchol ar y bledren, y coluddyn neu allu rhywiol.  Yn y mwyafrif helaeth o achosion, nid effeithir ar allu ymenyddol.

Mae MND yn gyffredinol yn glefyd datblygol a gall graddfa'r datblygiad amrywio'n fawr o un person i'r llall.

Sglerosis ochrol amyotrophig (ALS) yw'r math mwyaf cyffredin o MND, ac mae'n gyfrifol am hyd at 8 achos o bob 10.

Nid yw pobl gyda MND yn gwella ac mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n dioddef o MND yn marw o fewn 3 blynedd i'r symptomau

ddechrau. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n dioddef o MND yn mynd drwy gyfnod yn y pendraw, sy'n nodweddiadol o ALS.

## Beth yw riluzole (Rilutek)?

Riluzole (Rilutek) yw meddyginiaeth y gellir ei defnyddio i drin rhai mathau o glefyd niwronau motor (MND). Er nad yw'n wellhad, mae ymchwil wedi dangos y gall ymestyn bywyd. Dim ond arbenigwr sydd â phrofiad o reoli MND ddylai ddechrau rhagnodi riluzole.

## Beth mae NICE wedi ei argymell ynglŷn â defnyddio riluzole?

Mae NICE wedi argymell i'r NHS y dylai riluzole fod ar gael i drin unigolion gyda chlefyd niwronau motor (MND) yn unol â'i ddangosyddion trwyddedu.

Dim ond arbenigwr niwrolegol sydd â phrofiad o reoli MND ddylai ddechrau triniaeth gyda riluzole. Gall arolygaeth arferol o therapi gael ei reoli gan feddygon teulu, ond dylai hyn fod yn unol â chytundeb gyda'r arbenigwr, a adwaenir fel trefniant rhannu gofal.

## Beth ddylwn ei wneud?

Os oes gennych chi, neu rywun yr ydych yn gofalu amdanynt, Glefyd Niwronau Motor, efallai y byddwch eisiau trafod yr arweiniad hwn gyda'ch meddyg

teulu neu niwrolegydd.  Os oes gennych fynediad i'r Rhyngrwyd ac am ganfod mwy am MND ymwelwch â gwefan NHS Direct yn www.nhsdirect.nhs.uk a chwiliwch am glefyd niwronau motor.

## A fydd NICE yn arolygu ei arweiniad?

Bydd.  Bydd yr arweiniad hwn yn cael ei arolygu ym mis Ionawr 2004.